CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
*LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL*

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar y 9fed o Ionawr 2019 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Pandy Tudur.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau:

   Ymddiheuriadau: Ann Vaughan, Emlyn Williams, Garffild Lloyd Lewis, Gwyn williams

   Yn bresennol: Einir Williams (Cadeirydd), Diane Roberts, Gwynfor Davies, Gwydion Jones, Elen Haf Edwards, Clwyd Roberts.

   Cytunodd Einir Williams i gofnodi'r cyfarfod.

2. Datgan Diddordeb:

   Gwynfor Davies – Eitem 0/45816

3. Cofnodion Tachwedd 28ain, Rhagfyr 12fed a Ionawr y 9fed i'w trafod a gwirio yng Nghyfarfod Ionawr 30ain.

4. Ceisiadau Cynllunio:

4.1 0/45756 – Ty Mawr Gell, Llangernyw. Trosi o adeilad presennol i lety gwyliau, ychwanegu balcony, defnyddio rhan o'r safle ar gyfer gosod dwy babell. (Cais ol-weithredol)

Dim gwrthwynebiad, ond siomedig fod y broses gais cynllunio wedi ei wneud yn ól-weithredol. Pawb yn gytun.

4.2 0/45816 – Ty Ddol, Llangernyw. Sied da byw Newydd.

Gwynfor Davies ddim yn cymeryd rhan yn y drafodaeth am y cais yma oherwydd datgan diddordeb.

Cymeradwyo a chefnogi'r cais. Pawb yn gytun.

Daeth Gwynfor Davies yn ól i'r drafodaeth.

5. Presept

Diane Roberts wedi cyflenwi taenlen o Gyllideb 2018/2019, a'r gwariant chwarterol.

Aethpwyd ati i fynd drwy y gyllid i'w selio ar wariant disgwyliedig yn y flwyddyn ariannol nesa. Edrychwyd ar bob llinnell yn y daenlen a penderfynnu ar gyllid. Daethpwyd at ffigwr o £12,205. Fydd y Presept am 2019/2020 yn £9750 fel y flwyddyn flaenorol. Presept ddim yn cael ei godi am y flwyddyn 2019/2020. Bydd coffrau'r Cyngor Cymuned yn cyd-ariannu.

6. Cynllun Cludiant Cymunedol

Elen yn egluro bod cludiant yn broblem mewn ardaloedd gwledig. Mae angen edrych ar ffyrdd o ddarparu Cludiant Cymunedol, ond cyn hynny byddai angen 'feasability study' drwy greu holiadur i weld os oes modd profi angen am gludiant o'r fath yn ardal Llangernyw. Mae Garffild wedi holi Ifor Lloyd Cynghorydd Llanfair TH a Betws yn Rhos i wneud yr un fath.
Byddai angen 'match-funding' i'r prosiect yn lleol.
Elen yn gofyn i'r Cynghor os ydynt yn cytuno mewn egwyddor i wthio'r broses ymlaen gan baratoi am ddechrau holi barn drwy holiaduron.

Roedd y Cynghorwyr yn cytuno gyda'r syniad mewn egwyddor, ond angen cael syniad o gostau cyn cefnogi yn llawn.

7. <u>Materion lleol/Materion eraill:</u>

I'w trafod yng nghyfarfod Ionawr y 30ain

| **Materion at Agenda Ionawr 30ain 2018** |
|---|
| Cofnodion Tachwedd 28ain, Rhagfyr 12fed a Ionawr 9fed<br>Einir i brintio copi o bob un a'u blaenyrru i bob Cynghorydd i'w astudio CYN y cyfarfod er mwyn arbed amser. |
| Blwch ffón Pandy Tudur |
| Gwaith cofnodi - cyflogaeth |
| Cynnig Gwaith ariannol allan i Gyfrifydd |

Cofnodion gan Einir Williams.

Derbynwyd yn Gywir –

Arwyddo ………………………………………………………………… Dyddiad ……......................